Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-872
Ein cyf/Our ref KW/05387/19

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

27 Chwefror 2019

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Chwefror ynghylch y ddeiseb a gawsoch gan James Wilkinson, 'Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu cyllid ysgolion ac, os na all wneud hynny, i gydnabod effaith toriadau ar ddarpariaeth addysgol'. Rydych yn gofyn am fy marn ar y materion a godwyd cyn ei hystyried yn ffurfiol am y tro cyntaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwysau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu ac mae ein cyllidebau yn adlewyrchu ein blaenoriaethau parhaus ar gyfer gwasanaethau lleol, ysgolion a gofal cymdeithasol. Rydym wedi cymryd camau i ddiogelu awdurdodau lleol a gwasanaethau rheng flaen mewn ysgolion.

Mae'r penderfyniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud fel rhan o'r gyllideb gyffredinol yn darparu setliad realistig i lywodraeth leol yng nghyd-destun yr hinsawdd ariannol bresennol, ac un sy'n well na'r setliad dangosol a gymeradwywyd yn y gyllideb ddiwethaf, lle roedd cynghorau yn edrych ar ostyngiad o 1% yn y cyllid craidd. Mae'r setliad terfynol yn cynyddu'r arian parod yn gyffredinol, o gymharu â 2018/19, sy'n cyfateb i gynnydd o 0.2% ar ôl addasiadau trosglwyddo, ac mae'n cynnwys cyllid gwaelodol a ddarperir yn llawn gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, nid yw'r un awdurdod bellach yn wynebu gostyngiad o fwy na 0.3%, o gymharu â'r flwyddyn gyfredol, oni bai bod yna ffactorau gwahanol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal â'r cyllid creiddiol rydym yn ei roi i lywodraeth leol am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ddarparu cyllid grant sylweddol i gefnogi deilliannau gwell i ddysgwyr yng Nghymru. Dros dymor y Cynulliad hwn, rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi £100 miliwn i godi safonau ysgolion ac mae dros hanner y buddsoddiad hwn wedi'i neilltuo ar gyfer gwella addysgu a dysgu, gan gydnabod mai ein

hathrawon yw'r arf cryfaf sydd gennym ar gyfer ysgogi newid a gwella yn yr ystafell ddosbarth.

Mewn cydnabyddiaeth o'r costau sydd ynghlwm â chyflwyno'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd, rydym yn buddsoddi £20 miliwn i gefnogi datblygu sgiliau'r gweithlu addysg i helpu i gynyddu capasiti yn y system ac i sicrhau y gellir bodloni anghenion dysgwyr mewn amrywiaeth o leoliadau addysgol - mae £5.7 miliwn wedi'i fuddsoddi ar gyfer 2019-20.

Bydd hyn yn hwyluso ac yn cefnogi gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), a dderbyniodd gydsyniad brenhinol ym mis Ionawr ac a fydd yn gweddnewid y system ADY. Bydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer dull newydd, gan ysgogi gwella safonau i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyflawni ei addewid yn llwyr.

Mae diwygio'r cwricwlwm wrth galon ein cynllun gweithredu ar gyfer addysg ac rydym wedi cyllido'n benodol i gyflawni Addysg yng Nghymru. Rydym yn parhau i fuddsoddi £10 miliwn y flwyddyn hon i gefnogi diwygio'r cwricwlwm. Rydym wedi pennu cyllidebau sy'n ein galluogi i gynnal ein buddsoddiad yn yr ysgolion arloesi, i ddatblygu craidd y cwricwlwm gan weithio gyda'n partneriaid, ac i'w gyflwyno. Mae ein cefnogaeth uniongyrchol i'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol ac ysgolion arloesi digidol yn parhau.

Cyhoeddwyd y Dull Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol ym mis Tachwedd. Bydd y Dull yn cael £9 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon, gan godi i £15 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf. Dyma'r buddsoddiad unigol mwyaf i gefnogi athrawon ers datganoli. Bydd y cyllid yn rhoi'r amser a'r adnoddau i ysgolion y maent eu hangen i gynllunio ymlaen ar gyfer y cwricwlwm newydd ac i sicrhau y gwneir newidiadau mewn ffordd a fydd yn rhoi blaenoriaeth i lesiant athrawon ac yn amharu cyn lleied â phosibl ar ddysgu disgyblion. Bydd y cyllid hefyd yn helpu i sicrhau bod staff llanw ar gael er mwyn gallu rhyddhau staff ar gyfer dysgu proffesiynol.

Ein Rhaglen i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yw'r buddsoddiad mwyaf yn ein hysgolion a'n colegau ers y 1960au. Fe gaiff dros £1.4 biliwn ei fuddsoddi ym Mand A y Rhaglen, sydd eisoes wedi hen basio ei tharged, sef ailadeiladu neu ailwampio 150 o ysgolion a cholegau. Bydd £2.3 biliwn arall yn cael ei fuddsoddi yn y seilwaith addysg o fis Ebrill 2019 ymlaen. Mae wedi bod yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i addysg, gan gynnwys plant ag anableddau a rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Ein partneriaid cyflawni mewn awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach sy'n gyfrifol am flaenoriaethu pa brosiectau y mae rhaid eu cyflawni.

Lefel wreiddiol y cymorth grant ar gyfer cynlluniau cyfalaf oedd 50%. Fodd bynnag, ym mis Tachwedd y llynedd, ar ôl gwrando ar bryderon ein partneriaid cyflawni ynghylch pwysau ar eu cyllidebau, cyhoeddais fod cyfradd ymyrraeth grantiau Llywodraeth Cymru yn codi o 50% i 65% o'u cost ar gyfer cynlluniau cyfalaf. Cyhoeddais hefyd gynnydd i 75% ar gyfer cynlluniau sy'n cael effaith ar ein disgyblion sydd fwyaf agored i niwed mewn cyfleusterau ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai mewn unedau cyfeirio disgyblion.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda llywodraeth leol, consortia rhanbarthol ac ysgolion, o fewn system genedlaethol, i arbed arian, i ddatblygu ffyrdd newydd, mwy effeithiol, i gyflwyno gwasanaethau lleol ac i sicrhau bod y weledigaeth rydym yn ei rhannu ar gyfer gwella deilliannau addysgol i ddysgwyr yng Nghymru yn cael ei gwireddu.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg